# DWY
## O
# GERDDI
## NEWYDDION.

Yn gyntaf rhybydd i bawb feddwl am ei diwedd, a gweled a chlowed rhybuddion ac arwyddion, ag mae Duw yn êi roddi drwy'r *Mellt*, ar *Tarane* y flwyddyn yn enwedig y *Flaned* ymddanghosodd y dauuawfed o fis *Awst*.

Yr ail Yn mynegi hanes Gwraig yn yr *Iwerddon* yn y Gwanwyn diwaetha a fu farw o Newyn wedi iw Chymmydoges eî naccau hi o luniaeth yngwystl ei Dillad.

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON. SALISBURY LIBRARY

*TREFRIW*

*Argraphwyd gan Dafydd Jones.* 1783.

## Duw gadwo'r Brenîn.

CYD ddowch or un duedd
Yn Yspryd gwirionedd,
I ystyr yn buredd drwy bwys,
Fel 'rydych yn gorwedd ynghanol anwiredd,
Heb weled y diwedd blîn dwys,
Na chanfod y moddion er addysg o arwyddion
Fel 'rydoedd Duw 'n danfon bob dydd
Nag attal chwaith etto
Na chymryd dim cyffro,
Na ystyrio ond rhodio 'n ben rhydd,
Mis *Awst* y daunafed y gwelwyd côch Flaned,
Yn arwydd or caled fyd caeth,
Fod Angeu du 'n dyfod am wneud ein dibendod,
Bydd chwerdod a syndod ei saeth,

Ni waeth gin ange diclon pa fuchedd a fython,
Fo an gwneiff yno 'n feirwon ir fan,
Na pha'r un or ddau feistr fydd inni'n yr amser,
Pan ddelo dydd llymder y llan,
Os byddwn ni meirw yn y pechod blîn chwerw,
Cawn fod y dydd hwnnw 'n ddihedd,
Os awn tan law ange cyn mado an pechode,
Ni erys ein beie yn y Bedd,
Drachefn doen iw gweled yn Nydd adgyfodiad,
I beri caethiwed caeth iawn,
Pan ddelo ddydd Iesu drwy bur nerth in barnu,
Lle cawn ein colledu yno'n llawn,

X20 5128704

UNIV. COLL. OF S. WALES & MON.
SALISBURY LIBRARY



Digofaint Duw'r lluoedd sy'n ofid or Nefoedd,
A hyn a rybyddiodd y byd
Yn Flaned oer ffina cyn dyfod trom wasgfa,
Yn ddalfa ac yn draha blin dryd,
Mae'r Argwlydd ar fedr an rhoddi ar fyrr amser,
Ir caethder ar trymder mawr trist,
Rhag penyd cystuddiol dau gwell ini ymorol,
Fel unol rai grasol am Grist,
Marwolaeth di ddarfod geiff dyn yn ei bechod,
Heb gafael iawn gymod yn gu,
A hynny cyn clefyd pan oedd yn ei iechyd,
Yn unfryd ei fywyd a fu,

Rhybyddion or Nefoedd bu leni laweroedd,
Ar Mellt yma laddodd gryn lu,
Nifeiliêd a dynion yngwledydd y saeson,
Rhyw greulon o foddion a fu,
Rhyw bobl a leche pan oedd y mawr *Drane*,
Ynghysgod dwys gore Das gwair,
A *Mellten* ai trawodd ar ewbl a enynnodd,
Ar tan yno ympiriodd fel pair,
Y gwair aeth yn ulw ar bobl yn feirw,
Aî Cnawd oedd yn lludw hyd y llawr,
Ni welwyd un Corphyn yn hynod o'honyn,
A hyn mewn munudyn un awr.

Roedd eraill wrth Dderwen
Yn gochel gwlaw milen,
Ag attyn doe *Fellten* go fawr,
Hi wnaeth y pren creulon wasgarog ysgyrion,
Ai Jaflu yn ddellt llymion ir llawr,

Rhai yno fynafodd ar lleill a ddychrynodd,
Ar cwbl a fynodd yn fiwr,
Nifeilied yn cwympio gan *Fellt* yn i dragio,
A fyndod yn gwyro pob gwr,
Oni bae fod yr Arglwydd,
Yn llawn trugarogrwydd,
Fe allafe fwy tramglwydd ar dro,
A rhoddi dibenion ar filoedd o ddynion,
Oedd yma 'n rhai bryntion in bro,

Bu 'r Ddaear yn crynnu,
Hyd fanne yngwlad *Cymru*,
Mae'n debyg fod Iefu Mab Duw,
Ar fyrder am ddyfod i farn in cyfarfod,
Gwae rhai fy dan bechod yn byw,
Bu leni golofne o Niwl hyd ein parthe,
Ar Haul yma goche yn ein gwydd;
Roedd llawer o bobl yn difgwyl nerth Nefol,
A Chrift yn orfeddfol iw fwydd,
Ni hwyrach yn bene cyn del y Ffair nefa,
Y gelwir ni ir Noddfa uwch y nen,
Yr Arglwydd Dduw hynod,
An gwnelo ni 'n barod,
I ynnill y mawrglod Amen.

ELLIS ROBERTS a'i Cant.

## Parſon Pariſh.

CLOWCH hanes gwraig di duedd,
Am wneud trugaredd gu,
A chanddi hi 'roedd moddion,
Jaith umon yn ei thŷ.
Daeth atti hi gymmydoges,
Mae'r hanes yma o hyd,
Mewn alar mawr dan wylo,
I dreio amſer drud.

Ni fedde hon un llymed,
Nâ Thanned yn ei Thŷ,
A phedwar o blant bychain,
Yn llefain yno yn llu,
Yn Crio ei gyd gan Newyn,
Ond gerwin oedd y gwaith,
Ag un yn fychan yno,
Yn ſugno mawrdo maith,

Ei Mam nhw gododd allan,
Yn egwan iawn ei nerth,
Heb feddu o fewn ei Chaban,
Nag arian chwaith na'i gwerth,
Hi gymre ei phais ai ffêdog,
Ddyledog wraig dylawd,
Dan obaith cael am danyn,
Mewn gerwin flwyddyn Flawd.

Hi aeth i Dŷ Cymdoges,
Iuddewes drwg di Dduw.

I ddeifyf ei fyberwyd ,
I fafio ei bywyd byw ,
Aî dillad iw rhoi yn wyftl,
Yn fyfyl am y faig ,
I aros trugaredde o rywle i dalu ir wraig,

Y Wraig ddi deimled hono ,
Er Cwyno aî naccaes ,
Er maint a grefa hi yno,
Dan wylo a lleifio yn llaes ,
Ni chadd hi un briwfionyn,
Fe berthyn hyn i bwys ,
I fafio ei phedwar plentyn,
Rhag Newyn dygn dwys.

Y Plant yn dweud iw gilydd ,
Ein Mam ddedwydd toc a ddaw ,
Daw inni rhag marwolaeth ,
A lluniaeth pur oi llaw ,
Cawn wrth ei phais ai Ffedog ,
Yn fywiog iawn o fwyd ,
Fel na bô 'm mewn-eifie,
An lliwie oll mor llwydd .

Ei Mam ddoe'n fuan adre ,
Heb gael gwerth Dime ar dir,
Heb ddim i dorri ei Newyn ,
Bu yn erwin hyn yn wir ,
Hi gymerth ei dyn bychan ,
Modd breulan at ei bron ,
Gan Newyn daeth marwolaeth,
Anhowaeth toc ar hon ,

Y Wraig oedd anrhugarog,
Oedd gefnog dweuda iw gwr,
Y modde y naccause,
Y Wraig ar siwrne yn siwr,
A fase am wystl@ ei dillad,
Ai lliw mewn llygriad llwyd,
Fel cowse ei phlant rhsg eisie,
Yn rhyw fodde ganddi fwyd,

Y Gwr pan glywodd hynny,
A gode i fynu yn fwyn,
Ag aeth a lluniaeth iddi,
I dorri ei chyni ai chwyn,
Ond erbyn iddo syned,
Yn swynedd iw thŷ hi,
Fe wele yr wraig yn farwedd,
Ar plant dan groywedd grî.

Roedd plentyn bach iw fugno,
Ar ol iddi drigo draw,
Ar ol iddi farw o Newyn,
Drwy niwed mawr a braw,
Ar gwr yn gweiddi allan,
Yn fuan yno a fu,
Nes codi yr holl gymdogion,
Modd tirioa at tŷ,

Nhw aent ar Plant iw porthi,
Ag iw digoni yn gu,
A rhoddi ei Mam drwy alar,

I bridd y Ddaear ddu,
Y Gwr a fu ddillonus,
Am anghyſyrus ſaig,
Ei waith yn anrhugaredd,
Mor ryfedd ar ei Wraig,

Peth drwg iw Calon gledwch,
Dî degwch medd gair Duw,
Pedſaſe ai porthaſe,
Fe ſaſe hon yn ſyw,
Yr Arglwydd añ gwaredo,
Rhag ſyrthio i ffaſiwn ſenn,
I ado neb mewn Newyn,
Na niwed ſyth Amen.

E Roberts

DIWEDD

UNIV. COLL. OF WALES & MON. SALISBURY LIBRARY